**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 21 Tachwedd 2023**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys.<br><br>Caniataodd yr Arweinydd ddatganiad gan y Cynghorydd Peter Scott, Cadeirydd y Cyngor, ar ddyfarniad dros dro Cyllid Ffyniant Bro a gyhoeddwyd yn ddiweddar. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar bwynt cywirdeb, derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2023 a chadarnhau eu bod yn gywir.* |
| **5** | DIWYGIO ASESIAD O ANGHENION LLETY SIPSIWN A THEITHWYR (2023) SIR DDINBYCH | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cadarnhau ei gefnogaeth i'r dull o fynd ati i gyflawni adolygiad o Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych fel un cadarn ac un a oedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;*<br><br>*(b) cymeradwyo Asesiad diwygiedig o Lety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru;*<br><br>*(c) rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio i gytuno ar fân newidiadau golygyddol sydd angen eu gwneud i'r Asesiad drafft o Lety Sipsiwn a Theithwyr cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a*<br><br>*(d) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 4 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau. Cafodd hyn ei wneud cyn cyflwyno'r asesiad cyntaf yn 2021 ac roedd wedi'i adolygu yn 2023.* |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 21 Tachwedd 2023**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **6** | Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL: GORFFENNAF – MEDI 2023 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi perfformiad y Cyngor yn erbyn ei swyddogaethau ar ddiwedd chwarter 2 (Gorffennaf i Medi 2023) a chadarnhau cynnwys yr adroddiad drafft cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 30 Tachwedd 2023.* |
| **7** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2023/24 a'r cynnydd yn ôl y strategaeth y cytunwyd arni.* |
| **8** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.* |